# Tystysgrif Sgiliau Iaith Gymraeg

I'w dyfarnu o 2017

## MANYLEB

**Tystysgrif Sgiliau Iaith Gymraeg**

**MANYLEB**

i'w dyfarnu o 2017

Rheoleiddir y cymhwyster hwn gan Gymwysterau Cymru, ac nid yw ar gael i ganolfannau yn Lloegr.

Mae'r cymhwyster hwn yn cydymffurfio â gofynion Amodau Cyffredinol Cydnabyddiaeth Cymwysterau Cymru.

Darperir y cymhwyster gan CBAC mewn partneriaeth â'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol.

**Cynnwys** **Tudalen**


| | | | |
|---|---|---|---|
| Crynodeb o'r Asesiad | | | 2 |
| 1. | **Rhagarweiniad** | | 3 |
| | 1.1 | Nodau ac amcanion | 3 |
| | 1.2 | Dysgu blaenorol a dilyniant | 3 |
| | 1.3 | Gwaharddiadau a gorgyffwrdd | 3 |
| | 1.4 | Cydraddoldeb a mynediad teg | 3 |
| 2. | **Cynnwys y pwnc** | | |
| | 2.1 | Gwybodaeth, dealltwriaeth a sgiliau | 4 |
| | 2.2 | Cyflwyniad Llafar | 5 |
| | 2.3 | Prawf Ysgrifennu | 6 |
| 3. | **Asesu** | | |
| | 3.1 | Amcanion asesu a phwysoli | 7 |
| 4. | **Gwybodaeth dechnegol** | | |
| | 4.1 | Cofrestru | 8 |
| | 4.2 | Graddio, dyfarnu ac adrodd yn ôl | 8 |
| | 4.3 | Disgrifiadau cyrhaeddiad | 8-9 |
| Atodiad A | | Gridiau Asesu'r Cyflwyniad Llafar | 10-11 |
| Atodiad B | | Grid Asesu'r Prawf Ysgrifennu | 12-13 |

**Crynodeb o'r Asesiad**

Asesir y cyfan yn allanol.

| **Cydran 1: Cyflwyniad Llafar**<br>**Hyd yr asesiad: tua 15 munud**<br>**50% o'r cymhwyster** |
|---|
| Cyflwyniad llafar unigol, ac ymateb i gwestiynau ar sail y cyflwyniad. |
| **Cydran 2: Prawf Ysgrifennu**<br>**Hyd yr asesiad: 90 munud**<br>**50% o'r cymhwyster** |
| Mae tair rhan i'r asesiad hwn.<br>Rhaid cwblhau'r prawf cyfan ar gyfrifiadur.<br><br>Rhan 1 – Cywiro (20%)<br>Cywiro testun ysgrifenedig yn cynnwys nifer penodol o wallau.<br><br>Rhan 2 – Trawsieithu (40%)<br>Addasu testun ysgrifenedig Saesneg i'r Gymraeg at ddiben penodol.<br><br>Rhan 3 – Ysgrifennu Rhydd (40%)<br>Ysgrifennu testun mewn ymateb i sbardun penodol. |

**Rhif dynodi Cymwysterau Cymru:**
C00/1167/1

# 1. Rhagarweiniad

## 1.1 Nodau ac amcanion

Nod y cymhwyster hwn yw cydnabod sgiliau iaith Gymraeg myfyrwyr sy'n astudio mewn colegau a phrifysgolion yng Nghymru.

Bydd y cymhwyster yn:

- rhoi tystiolaeth o lefel sgiliau iaith Gymraeg y myfyrwyr, tystiolaeth a gydnabyddir gan y sector Addysg Uwch a chan gyflogwyr;
- annog myfyrwyr i ddatblygu eu sgiliau iaith Gymraeg llafar ac ysgrifenedig yn eu meysydd astudio ac mewn cyd-destunau ehangach na hynny;
- cynorthwyo myfyrwyr i sylweddoli gwerth sgiliau iaith Gymraeg ym maes addysg ac yn y gweithle dwyieithog;
- codi hyder myfyrwyr yn eu sgiliau iaith eu hunain, a'u hannog i ddilyn cyrsiau trwy gyfrwng y Gymraeg neu'n ddwyieithog, lle bo hynny'n bosibl;
- eu hannog i ddefnyddio'r Gymraeg yn y gweithle maes o law.

Mae'r cymhwyster yn cefnogi'r amcanion a fynegir yn strategaethau Llywodraeth Cymru, (e.e. Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg, Iaith fyw: iaith byw), ac yn cefnogi cenhadaeth y Coleg Cymraeg Cenedlaethol a CBAC.

## 1.2 Dysgu blaenorol a dilyniant

Nid oes angen i ymgeiswyr feddu ar gymwysterau penodol eraill cyn astudio ar gyfer y cymhwyster hwn. Fodd bynnag, dylent fod yn meddu ar y lefel briodol o sgiliau llafar ac ysgrifenedig i allu ymdopi â gofynion y Cyflwyniad Llafar a'r Prawf Ysgrifennu. Os nad yw'r darpar ymgeisydd yn siŵr a yw'r Dystysgrif Sgiliau Iaith yn addas iddo/iddi, dylid ymgynghori â'r tiwtor Sgiliau Iaith.

## 1.3 Gwaharddiadau a gorgyffwrdd

Nid oes gwaharddiadau na gorgyffwrdd â chymwysterau eraill.

## 1.4 Cydraddoldeb a mynediad teg

Gall unrhyw ddysgwr astudio'r fanyleb hon, beth bynnag fo'i ryw, ei gefndir ethnig, crefyddol neu ddiwylliannol. Nid yw'r fanyleb hon yn oed benodol, ac oherwydd hyn, mae'n darparu cyfleoedd i ymgeiswyr ymestyn eu haddysg gydol oes. Lluniwyd y fanyleb i osgoi, (lle bo'n bosibl) nodweddion a allasai, heb gyfiawnhad, ei gwneud yn fwy anodd i ddysgwr lwyddo oherwydd bod ganddo nodwedd benodol wedi ei hamddiffyn. O dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010, y nodweddion penodol wedi'u hamddiffyn yw: oedran, anabledd, ailbennu rhywedd, beichiogrwydd a mamolaeth, hil, crefydd neu gred, rhyw neu gyfeiriadedd rhywiol.

Mae gwybodaeth am addasiadau rhesymol i'w chael yn nogfen y Cydgyngor Cymwysterau (JCQ): Trefniadau Mynediad, Addasiadau Rhesymol ac Ystyriaeth Arbennig: Cymwysterau Cyffredinol a Galwedigaethol. Mae'r ddogfen hon ar gael yn Gymraeg ar wefan CBAC.

## 2. Cynnwys

### 2.1 Gwybodaeth a dealltwriaeth

I ennill y cymhwyster hwn, rhaid i ymgeiswyr ddangos gwybodaeth a dealltwriaeth o'r isod:

- ystod lawn o strwythurau, geirfa a gramadeg y Gymraeg;
- ystod lawn o gyweiriau iaith ffurfiol ac anffurfiol;
- ystod o barthau iaith academaidd neu broffesiynol sy'n berthnasol i'w maes astudiaeth ac yn ehangach na hynny;

**Sgiliau**

I ennill y cymhwyster hwn, rhaid i ymgeiswyr brofi eu bod yn meddu ar y sgiliau isod:

- cyflwyno pwnc academaidd neu broffesiynol (sy'n berthnasol i'w maes astudiaeth) ar lafar i gynulleidfaoedd amrywiol;
- cyflwyno ar lafar yn rhugl, gan gyfeirio at nodiadau a deunydd gweledol yn briodol;
- cyflwyno ar lafar yn gywir ac yn drefnus, gan ddefnyddio ystod o gystrawennau a geirfa;
- ymateb i gwestiynau am y pwnc yn rhwydd ac yn gyflawn;
- paratoi deunydd gweledol priodol i gefnogi cyflwyniad llafar;
- ysgrifennu'n gywir, gan gywiro testun a defnyddio arfau cyfrifiadurol i'w gywiro;
- deall testun ysgrifenedig Saesneg gan adnabod pwyntiau allweddol ar gyfer eu trawsieithu;
- addasu testun ysgrifenedig Saesneg at ddiben penodol yn Gymraeg;
- ysgrifennu testun yn gywir, yn y cywair priodol at ddiben a chynulleidfa benodol;

Mae'r wybodaeth a'r sgiliau a brofir yn adlewyrchu'r wybodaeth a'r sgiliau iaith proffesiynol a fydd yn ddefnyddiol i'r ymgeisydd yn y gweithle dwyieithog cyfoes.

## 2.2 **Cyflwyniad Llafar**

Rhaid i bob ymgeisydd wneud cyflwyniad llafar a fydd yn para 7-8 munud yn ymwneud ag unrhyw agwedd ar ei faes/ei maes astudiaeth. Dylai'r cyflwyniad fod yn addas i gynulleidfa o bobl nad ydynt yn arbenigwyr yn y maes hwnnw; hynny yw, dylid sicrhau bod y cyflwyniad yn ddealladwy i rywun sy'n anghyfarwydd â'r pwnc dan sylw.

Ar ddiwedd y cyflwyniad, bydd 7-8 munud i'r ymgeisydd ymateb i gwestiynau gan yr arholwr. Bydd y cwestiynau'n ymwneud ag unrhyw bwyntiau diddorol a gododd yn ystod y cyflwyniad.

Dyma'r meini prawf asesu a ddefnyddir:

- Dull cyflwyno
- Cywirdeb
- Ystod cystrawennau a geirfa
- Cynnwys a threfn
- Ymateb i gwestiynau
- Deunydd gweledol

Yn Atodiad 1, ceir grid yn manylu ar y meini prawf. Nodir 5 o ddisgrifiadau perfformiad dan bob maen prawf, a nodir y marciau a ddyfernir yn erbyn pob un.

Bydd arholwr allanol yn bresennol ymhob cyflwyniad llafar, a bydd pob cyflwyniad yn cael ei ffilmio at ddibenion cymedroli.

## 2.3 **Prawf Ysgrifennu**

Mae tair rhan i'r prawf Ysgrifennu. Rhaid cwblhau'r cyfan ar gyfrifiadur, ond darperir fersiwn papur i bob ymgeisydd allu cyfeirio ato. Ni dderbynnir atebion ar bapur. Asesir y prawf Ysgrifennu'n allanol.

**Rhan 1 – Cywiro** 20 marc

Cywiro testun ysgrifenedig sy'n cynnwys nifer penodol o wallau.

Bydd y testun yn cynnwys gwallau sillafu, camdreiglo, gwallau ffurfiant, gwallau teipio, gwallau cystrawen, gwallau atalnodi neu wallau gramadegol eraill. Ymhlith y gwallau, bydd 4 y gellir eu hadnabod drwy ddefnyddio arfau cywiro cyfrifiadurol.

Rhaid i'r ymgeisydd gywiro'r testun ar y sgrin, ac amlygu'r geiriau neu'r ymadroddion a gywirwyd gan ddefnyddio print trwm.

**Rhan 2 – Trawsieithu** 40 marc

Addasu testun ysgrifenedig Saesneg i'r Gymraeg at ddiben penodol.

Rhaid i'r ymgeisydd ddarllen testun ysgrifenedig Saesneg a'i addasu i'r Gymraeg at ddiben penodol, e.e. ysgrifennu crynodeb o destun Saesneg ar gyfer cynulleidfa benodol. Asesir gallu'r ymgeisydd i ysgrifennu'n gywir, gan ddefnyddio ystod o gystrawennau a geirfa, ac i lunio testun terfynol sy'n briodol i'r diben a ddisgrifir yn y dasg. Yn ogystal, bydd nifer o bwyntiau allweddol yn y testun gwreiddiol, ac asesir gallu'r ymgeisydd i gynnwys y pwyntiau priodol yn y trawsieithiad.

**Rhan 3 – Ysgrifennu Rhydd** 40 marc

Ysgrifennu testun mewn ymateb i sbardun penodol.

Rhaid i'r ymgeisydd ysgrifennu testun ar y cyfrifiadur mewn ymateb i sbardun penodol. Bydd y sbardun yn cynnwys gofynion penodol, e.e. natur y gynulleidfa, pwyntiau i'w cynnwys, ffurf y testun terfynol. Asesir gallu'r ymgeisydd i ysgrifennu'n gywir, gan ddefnyddio ystod o gystrawennau a geirfa, yn ogystal â chynnwys a threfn y testun terfynol. Hefyd, asesir gallu'r ymgeisydd i ateb gofynion penodol y dasg.

## 3. Asesu

### 3.1 Amcanion asesu a phwysoli

| | **Amcanion asesu** | **Pwysoli** |
|---|---|---|
| **AA1** | • Profi bod ymgeisydd yn gallu cyflwyno agwedd ar ei faes/ei maes astudiaeth ac ymateb i gwestiynau ar y cyflwyniad, a hynny'n gywir, yn drefnus gan ddefnyddio ystod briodol o gystrawennau a geirfa a chan gyfeirio at ddeunydd gweledol mewn modd priodol. | 50% |
| **AA2** | • Profi bod yr ymgeisydd yn gallu cywiro iaith ysgrifenedig a defnyddio arfau cyfrifiadurol wrth wneud hynny. | 10% |
| **AA3** | • Profi bod yr ymgeisydd yn gallu deall testun ysgrifenedig Saesneg, a'i addasu i'r Gymraeg at ddiben penodol, yn gywir, yn llawn a chan ddefnyddio ystod briodol o gystrawennau a geirfa. | 20% |
| **AA4** | • Profi bod yr ymgeisydd yn gallu ysgrifennu testun at ddiben penodol, a hynny'n gywir, yn drefnus a chan ddefnyddio ystod briodol o gystrawennau a geirfa. | 20% |

## 4. Gwybodaeth Dechnegol

### 4.1 Cofrestru

Bydd ymgeiswyr yn cofrestru gyda'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol erbyn dyddiad cau penodol, (gw. gwefan y coleg am wybodaeth am hyn), fel arfer ar ddechrau mis Tachwedd yn y flwyddyn academaidd pryd y bwriedir cyflawni'r cymhwyster.

Cynhelir y Cyflwyniadau Llafar yn y ganolfan arholi, fel arfer yn ystod tymor y gwanwyn. Cynhelir y Prawf Ysgrifennu ar un diwrnod penodol yn y flwyddyn, fel arfer yn ystod mis Mai.

Dylai ymgeiswyr ymgynghori â'u tiwtoriaid iaith i gael gwybodaeth am y trefniadau ar gyfer yr uchod.

### 4.2 Graddio, dyfarnu ac adrodd yn ôl

Dyfernir tystysgrif i bob ymgeisydd sydd yn llwyddo yn y cymhwyster hwn. Dyfernir y graddau isod:

Rhagoriaeth
Clod
Llwyddo
Methu

Fel arfer y trothwy llwyddo yw 50% o'r cyfanswm, ond gall yr union drothwy newid wrth ddyfarnu, a'r trothwyon graddau eraill.

Bydd pob ymgeisydd yn derbyn y marc a gafodd yn y ddwy gydran, allan o 100.
**Rhaid llwyddo yn y ddwy gydran i dderbyn tystysgrif.**
Bydd pob ymgeisydd yn derbyn tystysgrif, fel arfer ym mis Awst wedi'r arholiad.

Mae hawl gan ymgeisydd i ailsefyll y flwyddyn ganlynol. Os bydd yn gwneud hyn, Llwyddo yw'r unig ddyfarniad a ganiateir.

### 4.3 Disgrifiadau Cyrhaeddiad

Mae'r disgrifiadau cyrhaeddiad isod yn rhoi *arwydd cyffredinol* o gyrhaeddiad yr ymgeiswyr ar y graddau gwahanol.

**Rhagoriaeth**
I gyrraedd Rhagoriaeth, rhaid i ymgeiswyr ddangos eu bod yn gallu cyflwyno ar lafar yn ddiymdrech ac yn glir gan gyfeirio at ddeunydd gweledol yn gwbl briodol; byddant yn siarad yn gywir yn cywair priodol ac yn defnyddio ystod ragorol o gystrawennau a geirfa arbenigol; gallant siarad yn drefnus, ac ymateb yn huawdl ac yn gyflawn i gwestiynau. Hefyd i gyrraedd Rhagoriaeth, rhaid i ymgeiswyr ddangos eu bod yn gallu adnabod camgymeriadau iaith a'u cywiro, ysgrifennu'n gywir ac yn drefnus gan ddefnyddio ystod ragorol o gystrawennau a geirfa; byddant yn gallu deall testun cymhleth yn Saesneg a'i addasu i'r Gymraeg at ddiben penodol yn gwbl briodol.

**Clod**
I gyrraedd Clod, rhaid i ymgeiswyr ddangos eu bod yn gallu cyflwyno ar lafar yn rhugl ac yn glir fel arfer, gan gyfeirio at ddeunydd gweledol; byddant yn siarad yn gywir yn cywair priodol (gyda rhai camgymeriadau nad ydynt yn tynnu sylw), ac yn defnyddio ystod dda o gystrawennau a geirfa addas; gallant siarad yn drefnus ar y cyfan, ac ymateb yn dda ac yn eithaf llawn i gwestiynau. Hefyd i gyrraedd Clod, rhaid i ymgeiswyr ddangos eu bod yn gallu

adnabod camgymeriadau iaith a'u cywiro, ysgrifennu'n gywir (gyda rhai camgymeriadau nad ydynt yn tynnu sylw), ac yn weddol drefnus gan ddefnyddio ystod dda o gystrawennau a geirfa; byddant yn gallu deall testun cymhleth yn Saesneg a'i addasu i'r Gymraeg at ddiben penodol yn briodol ar y cyfan.

**Llwyddo**
I gyrraedd Llwyddo, rhaid i ymgeiswyr ddangos eu bod yn gallu cyflwyno ar lafar (er bod peth petruso ac aneglurder) gan gyfeirio'n briodol weithiau at ddeunydd gweledol; byddant yn siarad yn gywir, yn cywair priodol (er bod rhai camgymeriadau amlwg), ac yn defnyddio ystod foddhaol o gystrawennau a geirfa addas; gallant siarad yn weddol drefnus ar y cyfan, ac ymateb yn weddol rwydd i gwestiynau, er bod rhai ymatebion yn betrus neu braidd yn fyr. Hefyd i gyrraedd Llwyddo, rhaid i ymgeiswyr ddangos eu bod yn gallu adnabod rhai camgymeriadau iaith a'u cywiro, ysgrifennu'n gywir ar y cyfan (er bod rhai camgymeriadau amlwg nad ydynt yn amharu ar ddealltwriaeth), ac yn weddol drefnus (er bod rhai pwyntiau heb fod yn dilyn yn rhesymegol) gan ddefnyddio ystod foddhaol o gystrawennau a geirfa; byddant yn gallu deall testun cymhleth yn Saesneg i raddau a'i addasu'n foddhaol i'r Gymraeg at ddiben penodol.

**Methu**
Os bydd ymgeiswyr yn methu, mae'n debygol mai'r nodweddion hyn (neu rai ohonynt) sydd i gyfrif am hynny: y cyflwyniad llafar heb gwrdd â'r meini prawf asesu o ran dull cyflwyno, cywirdeb, ystod y cystrawennau a geirfa a ddefnyddiwyd; y cynnwys heb fod yn ddigon sylweddol na threfnus, neu fod yr ymgeiswyr heb ymateb i gwestiynau'n foddhaol na chyfeirio at ddeunydd gweledol yn briodol. O ran ysgrifennu, mae'n debygol mai'r nodweddion isod sydd i gyfrif: diffyg cywirdeb, ystod gyfyng yr iaith, diffyg trefn neu addasrwydd y testun, neu fod yr ymgeiswyr heb ateb gofynion y tasgau a osodwyd.

**Atodiad A**

Dyma'r disgrifiadau y bydd y marcwyr yn eu defnyddio wrth asesu'r Cyflwyniad Llafar.

**Grid Asesu'r Cyflwyniad Llafar**

| | **Cyflwyniad Llafar** **100 marc** |
|---|---|
| **Ll1.1** | **Dull cyflwyno** 20 marc<br><br>18-20 cyflwyno'n rhagorol a diymdrech, heb betruso dim; yn amrywio goslef a chyflymder y cyflwyno'n rhwydd; siarad yn gwbl glir, gan gyfeirio'n gynnil at nodiadau parod, os oes angen nodiadau o gwbl; cyfeirio'n ddiymdrech ac yn gwbl briodol at y deunydd gweledol.<br>14-17 cyflwyno'n rhugl er bod ychydig o oedi a phetruso; yn amrywio goslef a chyflymder yn ddigonol i gynnal diddordeb; siarad yn glir gan amlaf, gan ddefnyddio nodiadau parod yn briodol; cyfeirio'n briodol at y deunydd gweledol.<br>10-13 cyflwyno'n foddhaol er bod oedi a phetruso'n digwydd; yn siarad yn glir gan amlaf, er bod rhai pethau'n aneglur; y goslefu a'r cyflymder yn undonog; tuedd i ddibynnu gormod ar nodiadau parod weithiau'n unig; cyfeirio at y deunydd gweledol weithiau'n unig.<br><br>6-9 cyflwyno'n araf neu'n herciog; siarad heb egluro pwyntiau'n iawn; cyflwyno mewn ffordd undonog iawn; gorddibyniaeth amlwg ar sgript neu nodiadau parod; heb gyfeirio at y deunydd gweledol neu'n darllen ohono air am air.<br>0-5 y cyflwyniad yn afrwydd iawn, yn aneglur ac yn undonog, neu'n gwbl ddibynnol ar nodiadau neu sgript; yn methu â chyfeirio'n briodol at y deunydd gweledol. |
| **Ll1.2** | **Ystod cystrawennau a geirfa** 20 marc<br><br>18-20 defnyddio ystod ragorol ac amrywiol o gystrawennau a geirfa arbenigol sy'n gwbl briodol i'r cyflwyniad.<br>14-17 defnyddio ystod dda o gystrawennau gwahanol a geirfa sy'n addas i ddibenion y cyflwyniad.<br>10-13 defnyddio ystod foddhaol o gystrawennau a geirfa sy'n ddigonol i'r cyflwyniad, er bod rhai bylchau amlwg.<br><br>6-9 defnyddio ystod gyfyng o gystrawennau, a diffyg geirfa'n peri peth anhawster wrth gyflwyno.<br>0-5 ystod o gystrawennau a geirfa sy'n rhy gyfyng i gyflwyno'r pwnc dan sylw'n foddhaol. |
| **Ll1.3** | **Cynnwys a threfn y cyflwyniad** 20 marc<br><br>18-20 pwnc y cyflwyniad ac amlinelliad o'r cynnwys yn gwbl glir o'r dechrau; y cynnwys yn rhagorol a'r ymgeisydd yn dangos dealltwriaeth drylwyr o'r pwnc; y cyflwyniad yn gwbl drefnus a'r pwyntiau'n dilyn ei gilydd yn rhesymegol; y cynnwys yn gwbl addas i'r gynulleidfa ac yn gwbl addas i'r hyd a ganiateir.<br>14-17 pwnc y cyflwyniad ac amlinelliad o'r cynnwys yn ddigon clir ar y dechrau; y cynnwys yn dda iawn, ac yn dangos bod gafael gan yr ymgeisydd ar y pwnc; y cyflwyniad yn drefnus ar y cyfan a'r cynnwys yn ddigon addas i'r gynulleidfa; y cynnwys yn ddigonol i'r hyd a ganiateir.<br>10-13 pwnc y cyflwyniad ac amlinelliad o'r cynnwys yn weddol glir; y cynnwys yn |

| | | |
|---|---|---|
| | | foddhaol ac yn dangos peth dealltwriaeth o'r pwnc; y cyflwyniad yn weddol drefnus er bod rhai pwyntiau heb fod yn dilyn yn rhesymegol; y cynnwys yn rhannol addas i'r gynulleidfa; y cyflwyniad ychydig y rhy hir neu ychydig yn brin, o ystyried yr hyd a ganiateir. |
| | 6-9 | pwnc y cyflwyniad ac amlinelliad o'r cynnwys yn aneglur; y cynnwys yn arwynebol ar y cyfan; y cyflwyniad yn anhrefnus neu'n ddryslyd i'r gynulleidfa; y cyflwyniad yn rhy hir neu'n brin, o ystyried yr hyd a ganiateir. |
| | 0-5 | y cynnwys yn anfoddhaol ac yn anaddas fel cyflwyniad; heb ôl trefn na strwythur amlwg, a'r cynnwys heb ystyried natur y gynulleidfa; y cyflwyniad yn llawer rhy hir neu'n brin iawn, o ystyried yr hyd a ganiateir. |
| **Ll1.4** | **Ymateb i gwestiynau** | 20 marc |
| | 18-20 | ymateb i gwestiynau'n gwbl ddiymdrech, yn huawdl ac yn gyflawn. |
| | 14-17 | ymateb i gwestiynu'n dda iawn, yn rhugl ac yn ateb yn eithaf llawn. |
| | 10-13 | ymateb i gwestiynau'n foddhaol, er bod yr ymatebion yn betrus neu braidd yn fyr. |
| | 6-9 | ymateb yn aneglur, yn cael peth trafferth ateb neu heb ateb y cwestiwn yn iawn. |
| | 0-5 | ymateb yn aneglur, yn methu ateb cwestiynau mewn modd synhwyrol. |
| **Ll1.5** | **Cywirdeb** | 10 marc |
| | 9-10 | siarad yn gywir iawn (ychydig iawn o wallau dibwys yn unig), a'r cywair yn gwbl briodol i'r cyflwyniad. |
| | 7-8 | siarad yn gywir, gyda rhai camgymeriadau nad ydynt yn tynnu gormod o sylw, a'r cywair yn briodol i'r cyflwyniad. |
| | 5-6 | siarad yn gywir ar y cyfan, er bod rhai camgymeriadau amlwg nad ydynt yn amharu ar ddealltwriaeth; y cywair yn addas gan amlaf, er bod peth defnydd o iaith sy'n rhy anffurfiol. |
| | 3-4 | siarad yn eithaf gwallus a'r gwallau'n ymyrryd â dealltwriaeth y gynulleidfa; y cywair yn anaddas ar brydiau, e.e. defnydd o iaith sy'n rhy anffurfiol neu Saesneg. |
| | 0-2 | y gwallau'n niferus a gwrando'n anodd i'r gynulleidfa; y cywair yn amhriodol i'r cyflwyniad. |
| **Ll1.6** | **Deunydd gweledol** | 10 marc |
| | 9-10 | y deunydd yn gwbl briodol i'r cyflwyniad, yn ychwanegu at ddealltwriaeth y gynulleidfa ac yn gwbl gywir ei iaith. |
| | 7-8 | y deunydd yn addas i'r cyflwyniad, yn hygyrch i'r gynulleidfa ac yn cynnwys dim ond rhai mân wallau. |
| | 5-6 | y deunydd yn addas ar y cyfan, er bod y sleidiau'n ailadrodd yr hyn a ddywedir yn y cyflwyniad; Rhai camgymeriadau, ond heb ymyrryd â dealltwriaeth y gynulleidfa. |
| | 3-4 | y deunydd braidd yn anaddas neu'n aneglur; gormod o wallau iaith i'w gweld ar y sgrin; nifer y sleidiau'n brin neu'n ormod. |
| | 0-2 | y deunydd yn aneglur neu'n frith o wallau; nifer amhriodol o sleidiau. |

**Atodiad B**

Dyma'r disgrifiadau y bydd y marcwyr yn eu defnyddio wrth asesu'r Prawf Ysgrifennu.

**Grid Asesu'r Prawf Ysgrifennu**

| | | |
|---|---|---|
| | **Ysgrifennu** | **100 marc** |
| | **Rhan 1 – Cywiro** | 20 marc |
| **Y1**<br>**1-22** | 22 eitem<br><br>Rhoddir 1 marc am bob eitem sydd wedi ei chywiro'n briodol, (18 eitem).<br>Rhoddir 0.5 marc am bob eitem sydd wedi ei chywiro'n briodol drwy ddefnyddio arfau cyfrifiadurol, (4 eitem). | |
| **Y2** | **Rhan 2 – Trawsieithu** | 40 marc |
| **Y2.1** | **Cywirdeb**<br><br>9-10 ysgrifennu'n gywir iawn, ychydig iawn o fân wallau yn unig.<br>7-8 ysgrifennu'n gywir, gyda rhai camgymeriadau nad ydynt yn tynnu gormod o sylw.<br>5-6 ysgrifennu'n gywir ar y cyfan, er bod rhai camgymeriadau amlwg nad ydynt yn amharu ar ddealltwriaeth.<br><br>3-4 ysgrifennu'n eithaf gwallus, a'r camgymeriadau'n amharu ar ddealltwriaeth y darllenydd.<br>0-2 y testun yn cynnwys nifer o gamgymeriadau elfennol. | 10 marc |
| **Y2.2** | **Ystod**<br><br>9-10 defnyddio ystod ragorol o gystrawennau a geirfa, sy'n gwbl briodol i'r dasg.<br>7-8 defnyddio ystod dda o gystrawennau a geirfa sy'n briodol i'r dasg.<br>5-6 defnyddio ystod foddhaol o gystrawennau a geirfa sy'n addas i'r dasg, er bod rhai bylchau amlwg.<br><br>3-4 defnyddio ystod gyfyng o gystrawennau a phatrymau a'r diffygion yn peri peth anhawster wrth ysgrifennu'r testun.<br>0-2 defnyddio ystod o gystrawennau a geirfa sy'n rhy gyfyng i gyflawni'r dasg yn foddhaol. | 10 marc |
| **Y2.3** | **Addasrwydd y testun**<br><br>9-10 y testun terfynol yn gwbl briodol i'r dasg a osodwyd, e.e. ffurf, hyd, cywair neu'r gynulleidfa y bwriadwyd y testun ar ei chyfer.<br>7-8 y testun terfynol yn addas i'r dasg a osodwyd, er bod un neu ddwy agwedd (e.e. ffurf, hyd, cywair neu addasrwydd i'r gynulleidfa) yn llai addas.<br>5-6 y testun terfynol yn foddhaol, er bod rhai agweddau nad ydynt yn briodol, e.e. ffurf, hyd, cywair neu addasrwydd i'r gynulleidfa.<br><br>3-4 y testun terfynol yn anaddas o ran y dasg a osodwyd, neu'r ymgeisydd heb gyflawni'r gofynion o ran ffurf, hyd, cywair neu addasrwydd i'r gynulleidfa.<br>0-2 y testun terfynol yn gwbl anaddas i'r dasg. | 10 marc |

| | |
|---|---|
| **Y2.4** | **Pwyntiau allweddol** 10 marc<br><br>Mae 5 o bwyntiau allweddol y mae angen i'r ymgeisydd eu cynnwys yn y trawsieithiad, a fydd yn dangos eu bod wedi deall y testun gwreiddiol, Saesneg.<br><br>Rhoddir 2 farc am bob pwynt allweddol a gynhwysir yn gyflawn ac yn briodol;<br>Rhoddir 1 marc am bob pwynt allweddol a gynhwysir yn rhannol neu'n lled briodol. |
| | **Rhan 3 – Ysgrifennu rhydd** 40 marc |
| **Y3.1** | **Cywirdeb** 10 marc<br><br>9-10 ysgrifennu'n gywir iawn, ychydig iawn o fân wallau'n unig.<br>7-8 ysgrifennu'n gywir, gyda rhai camgymeriadau nad ydynt yn tynnu gormod o sylw.<br>5-6 ysgrifennu'n gywir ar y cyfan, er bod rhai camgymeriadau amlwg nad ydynt yn amharu ar ddealltwriaeth.<br><br>3-4 ysgrifennu'n eithaf gwallus, a'r camgymeriadau'n amharu ar ddealltwriaeth y darllenydd.<br>0-2 y testun y cynnwys nifer o gamgymeriadau elfennol. |
| **Y3.2** | **Ystod** 10 marc<br><br>9-10 defnyddio ystod ragorol o gystrawennau a geirfa, sy'n gwbl briodol i'r dasg.<br>7-8 defnyddio ystod dda o gystrawennau a geirfa sy'n briodol i'r dasg.<br>5-6 defnyddio ystod foddhaol o gystrawennau a geirfa sy'n addas i'r dasg, er bod rhai bylchau amlwg.<br><br>3-4 defnyddio ystod gyfyng o gystrawennau a phatrymau a'r diffygion yn peri peth anhawster wrth ysgrifennu'r testun.<br>0-2 defnyddio ystod gyfyng o gystrawennau a geirfa sy'n rhy gyfyng i gyflawni'r dasg yn foddhaol. |
| **Y3.3** | **Cynnwys a threfn** 10 marc<br><br>9-10 y cynnwys yn rhagorol a'r ymgeisydd yn gallu cyflawni'r dasg yn ddeallus; y darn yn gwbl drefnus a'r pwyntiau'n dilyn ei gilydd yn rhesymegol.<br>7-8 y cynnwys yn dda iawn, ac yn dangos bod yr ymgeisydd yn gallu cyflawni'r dasg yn dda; y darn yn drefnus ar y cyfan.<br>5-6 y cynnwys yn foddhaol a'r ymgeisydd yn cyflawni'r dasg yn ddealladwy ar y cyfan; y darn yn weddol drefnus er bod rhai pwyntiau heb fod yn dilyn yn rhesymegol.<br><br>3-4 y cynnwys yn arwynebol ar y cyfan; y darn yn anhrefnus i raddau helaeth.<br>0-2 y cynnwys yn anfoddhaol; heb ôl trefn na strwythur amlwg. |
| **Y3.4** | **Ateb y gofynion** 10 marc<br><br>Mae 5 o ofynion ym mhob sbardun.<br>Rhoddir 2 farc am bob un o'r gofynion a atebir yn gyflawn ac yn briodol;<br>Rhoddir 1 marc am bob un o'r gofynion a atebir yn rhannol neu'n lled briodol. |

* Yn gyffredinol, mae 'mân wallau' yn cyfeirio at wallau sillafu neu wallau treiglo, yn hytrach na gwallau cystrawen neu ramadeg.